# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 22 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(31)

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

**14.31**
**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**14.45**
**3. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty: Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru**

**15.25**
**4. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Llywodraethu Addysg Bellach**

**15.58**
**5. Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Gorchymyn i ymestyn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd**

**16.29**
**6. Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Llifogydd ac Erydu Arfordirol Atodol (Cymru) 2011**

**NDM4855 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Gorchymyn Llifogydd ac Erydu Arfordirol Atodol (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Tachwedd 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**16.32**
**7. Dadl ar Fanteision Rhannu Gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Bersonol**

**NDM4856 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod bod rhannu gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bersonol, gyda chymorth technoleg, yn hanfodol er mwyn cwrdd ag amcanion 'Law yn Llaw at Iechyd' a sicrhau'r newid i'r system sy'n angenrheidiol er mwyn darparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig a chynaliadwy sy'n gwella canlyniadau, yn cefnogi pobl mewn angen ac yn darparu gofal yn agos at y cartref.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu y bydd cynigion cyllideb ddrafft cyfredol Llywodraeth Cymru yn methu â rhoi digon o gyllid ar gyfer caffael systemau technoleg i fanteisio'n llawn ar rannu gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bersonol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 5 | 38 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, er mwyn cynyddu manteision rhannu gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bersonol, y dylai Llywodraeth Cymru hwyluso'r broses o ymgorffori hanes gwasanaeth cyn-filwyr yn eu cofnodion meddygol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 5 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4856 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod bod rhannu gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bersonol, gyda chymorth technoleg, yn hanfodol er mwyn cwrdd ag amcanion 'Law yn Llaw at Iechyd' a sicrhau'r newid i'r system sy'n angenrheidiol er mwyn darparu iechyd a gofal

cymdeithasol integredig a chynaliadwy sy’n gwella canlyniadau, yn cefnogi pobl mewn angen ac yn darparu gofal yn agos at y cartref.

Yn credu, er mwyn cynyddu manteision rhannu gwybodaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bersonol, y dylai Llywodraeth Cymru hwyluso’r broses o ymgorffori hanes gwasanaeth cyn-filwyr yn eu cofnodion meddygol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**17.23**
**8. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Menter Gymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol)**

**NDM4857 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau sy’n ymwneud â lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol drwy gontractau cyhoeddus yn y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Menter Gymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol) fel y’i cyflwynwyd yn Nhŷ’r Cyffredin ar 30 Mehefin 2010, i’r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Senedd y DU wedi newid enw'r Bil i’r Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) drwy ei ddiwygio ar 18 Hydref 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM4857 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau sy’n ymwneud â lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol drwy gontractau cyhoeddus yn y Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Menter Gymdeithasol a Gwerth Cymdeithasol) fel y’i cyflwynwyd yn Nhŷ’r Cyffredin ar 30 Mehefin 2010, i’r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn nodi bod Senedd y DU wedi newid enw'r Bil i’r Bil Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) drwy ei ddiwygio ar 18 Hydref 2011.

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**17.23**
**Cyfnod Pleidleisio**

Daeth y cyfarfod i ben am 17.25.

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2011**